

**Cyngor Cymuned Llanllyfni**  
**Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 10fed o Ragfyr 2019.**

1. **Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Iona Wyn Jones, Erfyl Williams, Justin Davies – Penygroes; Harry Wyn Owen, Gareth Lloyd Jones, Sian Dafydd – Talysarn; Hefina M W Roberts, OP Huws, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Judith Humphreys – Cynghorydd Sir / **Ymddiheuriadau:** Ffion Jones – Nantlle; Dafydd Thomas – Nebo; Craig ab Iago – Cynghorydd Sir.
2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan buddiant.
3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Tachwedd.** Gwyndaf yn cynnig cywirdeb y cofnodion, a Hefina yn eilio. Pawb yn cytuno.
4. **Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Cafwyd adroddiad ar lafar ac yn ysgrifenedig gan Judith. Gofynnodd os y byddai diddordeb gan aelodau fynychu cyfarfod i drafod traffic ger Bro Lleu ac Ysgol Dyffryn Nantlle – Iona a Barryn yn gwirfoddoli – Judith am drefnu efo Rheolwr y Gwasanaeth Traffig. Fe holodd Judith am gae chwarae Cwtin, ac os oedd gan y Cyngor farn ar sut i wella cyflwr y tir o ran draenio, os y byddai ychwanegu topsoil yn gwneud gwahaniaeth. Y farn oedd na fyddai hyn yn datrus y broblem.
5. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Cysylltu efo Craig i'w holi os y bu iddo drefnu cael swyddogion tai i gyfarfod y Cyngor Cymuned fis Ionawr; Darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd i'n ebost am Taldrwst. Trafnidiaeth yn parhau i achosi pryder. Gofyn i Gyngor Gwynedd am adolygiad cyn dechrau mewnlenwi unrhyw dyllau chwarel mewn unrhyw leoliad arall.
6. **Materion Pentrefi ac Unrhyw Fater i'r Heddlu.** Llanllyfni – Gwyndaf wedi bod mewn cyswllt efo swyddog Cyngor Gwynedd, ac addewid wedi ei wneud i gael arwyddion 'Dim Ffordd Trwadd' ar Lon Talgarnedd o fewn 6 wythnos; Rhan uchaf o Ffordd Rhedyw angen sylw – gofyn i Gyngor Gwynedd archwilio eto. Penygroes Tyllau o flaen Wynnstanley; Trem yr Wyddfa – pant wrth Cae Catrin ger y blwch postioac wrth rhif 5 a 6; Y Cyngor yn canmol Judith am yr holl waith mae hi yn ei wneud ac yn ei drefnu ym Mhenygroes; Baw ci ar Ffordd Llwyndu; Gwair wrth y byngalos ar Ffordd Llwyndu yn tyfu ar y palmant – pryder am bobl sydd yn cerdded efo coets; Gofyn am linellau melyn wrth y tai ger y Fic ar hyd y lon fawr; Judith wedi bod yn holi ardaloedd eraill ynglyn a systemau CCTV – mae angen gofyn mwy o gwestiynau i'r Heddlu ynglyn a'r amser mae'n gymryd i ymateb i ddigwyddiad sy'n cael ei gofnodi ar CCTV (response time). Mae'n debyg y byddai 8 – 9 camera yn costio tua £20000. Ac hefyd byddai angen penderfynu ar system; Angen gofyn am oleuadau ar y maes parcio wrth yr Orsaf Heddlu ym Mhenygroes – dau o bobl wedi disgyn, ac un wedi torri braich. Talysarn Pryder am ganran di-Gymraeg yn y Cylch Meithrin. Y Cyngor yn argymhell i'r Cylch ymgynghori efo Swyddogion y Mudiad am arweiniad.
7. **Parc Sglefrio Talysarn** Offer y Parc Sglefrio wedi ei dynnu o'r safle. Siomedig na fu'r Cyngor Cymuned yn rhan o'r drafodaeth, er i ni ofyn i gael ein cynnwys. Angen pwyso ar y grwp i gael grantiau.
8. **LleCHI** Nebo yn gweithio ar gynllun i gael grantiau. Edrych ar strategaeth twristiaeth. Fe godwyd fod angen grantiau ar gyfer cynnal yn ogystal a sefydlu. Pwysig cynnwys y siopau, a Chymreigio – pawb yn hapus.
9. **Llwybrau a Mynwentydd** Llwybrau'r mynwentydd wedi eu glahnau ac yn edrych yn dda. Cynllun drafft o arwydd i'w arddangos ynglyn a'r corlenni wedi ei greu.
10. **Taflen Ariannol, Taflen Gyllid, Biliau i'w Talu.** A Johnson - £25 Ffon/Rhyngwrwd, A Johnson Derbynebau £55; Wales Audit Office £244.70. Cytuno. Derbyn y daflen ariannol a chyllid.
11. **Cynllunio:**–NP3/22/3C – Tal y Mignedd Isaf, Nantlle – Gosod 3 uned llety gwyliau ar lecynnau caled gyda meddiannaeth drwy'r flwyddyn - derbyn; C19/0189/22/LL – Treddafydd, High Street, Penygroes – Cais llawn i godi 12 annedd-dy gyda mynediad, parcio ac is-adeiledd cysylltiedig. Angen mwy o wybodaeth. Pryder am y cynydd traffig, sut fath o dai? I bwy? Ydy'r bwriad i adeiladu ar gyfer pob leol? Ydy'r bwriad ar gyfer 2 gar i bob ty? Cynydd traffig o'r stad – o leiaf 10 car yn y bore. Ydy'r bwriad i gael tai fforddiadwy? Awgrymu fod 12 ty yn ormodol, effeithio ar ysgolion a doctoriaid ayyb.
12. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis:** Cyfarfod mynwentydd. Cymeradwywyd argymhellion yr Is-Bwyllgor, a gofynwyd i'r Clerc yrru'r tendr drafft gwreiddiol i'r Is-Bwyllgor er mwyn edrych os oes posib ei addasu. Y Cyngor llawn yn cytuno bod angen symud ymlaen, a bydd y Cyngor yn gwneud cais am fenthyciad i'r Pwll.
13. **Gohebiaeth:**  
**\*Cyngor Gwynedd:** \* Rhybuddion Ffordd. Er gwybodaeth.  
**\*Arall\*** Un Llais – rhannwyd yr wybodaeth yn ystod y mis.
14. **Ceisiadau am Arian.** Trafod Chwefror.